Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Talyllychau yn Ysgol Gynradd Gymunedol Talyllychau nos Fawrth 3 Gorffennaf am 7.30 pm.
Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol: Y Cynghorwyr: John Williams (Cadeirydd), Janine Roberts, Marged Bowen, Pauline George, Nigel Lovatt, y Cynghorydd Sir Joseph Davies a Jane Morgan (Clerc).
Ymddiheuriadau: Sarah Walters, Rhys Williams. Cyrhaeddodd Eifion Roberts y cyfarfod am 8.15 pm.
Cyrhaeddodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Roger Anthony y cyfarfod am 9.15 pm.
Ni nodwyd unrhyw Ddatganiad o Fuddiant.
Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.
Materion sy'n codi.
Y Cae Cymunedol. Roedd llythyr wedi dod i law gan Ysgol Gynradd Talyllychau yn gofyn am ganiatâd i gael mynediad i'r Cae Chwarae trwy'r Cae Cymunedol er mwyn torri'r glaswellt, gosod toiledau symudol ar y cae ar gyfer digwyddiadau chwaraeon yr ysgol, a darparu mynediad ar gyfer gwasanaethau brys. Cytunwyd i roi caniatâd i'r ysgol dorri'r glaswellt unwaith yn ystod yr haf. Byddai angen i'r Cyngor wirio'r sefyllfa Gyfreithiol, a fyddai'n cael ei thrafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf ym mis Medi.
Ymunodd Eifion Roberts â'r cyfarfod.
Llenwyd ffurflen gais i ymuno â'r Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac Amlosgfeydd (ICCM).
Cytunwyd ar enw'r unigolyn a fyddai'n gweithredu ar ran y Cyngor Cymuned, sef y Clerc Jane Morgan.
Enw unigolyn i ddirprwyo yn absenoldeb y Cadeirydd John Williams.
Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Copi o lythyr yn gwrthwynebu cau Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Glangwili yng Nghaerfyrddin i'w hanfon ymlaen at Adam Price, Jonathan Edwards a Vaughan Gething.
Cyflog y Clerc. Oherwydd yr amrywiad mewn taliadau Treth Incwm misol, cytunwyd i ganslo'r archeb sefydlog a oedd yn daladwy i'r Clerc M.J. Morgan ar gyfer £135.46 y mis ac, yn lle hynny, i'w dalu trwy siec yn y dyfodol. Y taliad ar gyfer mis Gorffennaf fyddai £135.46 llai gordaliad o 40c ar gyfer mis Mai, 20c ar gyfer mis Mehefin a 20c ar gyfer mis Awst = £135.26.
Gohebiaeth
Cytunwyd i dalu'r canlynol:
Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Taliad refeniw Mehefin £31.40. Gorffennaf £31.20.
M & J Maintenance. Torri glaswellt y fynwent ym mis Mehefin. £430.00.
Treuliau Sarah Walters, y Clerc Claddu. £20.00.
Llythyr oddi wrth Ysgol Talyllychau ynghylch y Wobr ar gyfer y disgybl/disgyblion â'r presenoldeb gorau yn ystod y flwyddyn. Cytunwyd i roi £30.00.
Ffi Diogelu Data. ICO £40.00. Cytunwyd i dalu hyn.
Hysbysiad Preifatrwydd. Cafodd cadarnhad o Gais ICO ei dderbyn a'i drafod. Y Clerc i wirio gydag Un Llais Cymru beth yr oedd angen ei roi ar y Wefan.
Cafodd yr ohebiaeth ganlynol ei dosbarthu a'i thrafod:
Llythyr gan Gyngor Sir Gâr ynghylch darparu rhagor o dai fforddiadwy ac yn amgáu drafft o Arolwg Cartrefi Gwledig 2018.
Llythyr gan Gyngor Sir Gâr ynghylch y Cais am Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau.

Un Llais Cymru. Hysbysiad o Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Pwyllgor Ardal Sir Gaerfyrddin, i'w gynnal am 7 pm nos Fawrth 3 Gorffennaf yn Neuadd Ddinesig San Pedr, Caerfyrddin.
Llythyr gan Gyngor Sir Gâr ynghylch Cyflenwi a Chadw'r Gofrestr Etholwyr.
Llythyr gan Lywodraeth Cymru ynghylch y Cod Ymarfer ar Faterion y Gweithlu – Ymarfer Monitro Blynyddol.
Hysbysiad o Gynhadledd Materion Gwledig Sir Gaerfyrddin, i'w gynnal ddydd Gwener 7 Medi 2018 rhwng 9.30 a 16.00 yng Nghanolfan Halliwell, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin. *Clerks & Councils Direct*.
Llythyr gan Gyngor Sir Gâr ynghylch y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth – Ffioedd Claddu Plant. Y Clerc i gadarnhau bod y Cyngor wedi mabwysiadu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hon.
Llythyr gan Gyngor Sir Gâr ynghylch Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033. Galw am Safleoedd Posibl. Roedd y Cyngor wedi penderfynu ymestyn y cyfnod cyflwyno ar gyfer Safleoedd Posibl, y disgwyliwyd iddo gau ar 29 Mai 2018 yn wreiddiol. Y dyddiad cau diwygiedig oedd 2 pm ar 29 Awst 2018. Ni fyddai unrhyw safleoedd a gyflwynid ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.
Llythyr gan Gyngor Sir Gâr ynghylch Gweithdy ar lunio Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yn Sir Gaerfyrddin, yn gwahodd hyd at ddau gynrychiolydd i fynychu'r gweithdy ymgysylltu cyntaf ddydd Llun 30 Gorffennaf 2018 am 4.45 pm yn Neuadd Ddinesig Llandeilo. Yn anffodus, nid oedd neb yn gallu mynychu.
Arhosfan Bws ger Bancelwydd. Roedd llythyr wedi dod i law gan Mr. Wyn Edwards ynghylch cyflwr yr arhosfan. Cytunwyd i gydnabod derbyn y llythyr ac i anfon llythyr i Gyngor Sir Caerfyrddin yn gofyn am i'r arhosfan gael ei lanhau.
Toiledau Cyhoeddus. Cafodd copi o lythyr a anfonwyd i Gyngor Sir Caerfyrddin ynghylch cau toiledau ei gyflwyno er gwybodaeth gan Mrs. K. Lovatt.
Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol Cymru. Taliadau i aelodau Cyngor Cymuned Talyllychau ar gyfer 2016-17. Y ffurflen wedi'i llenwi i'w chyhoeddi a'i dychwelyd erbyn 30 Medi 2018. Cywiriad i'r Rheolau Sefydlog. Roedd neges e-bost wedi dod i law i ddiwygio'r rheolau sefydlog a ddosbarthwyd yn ddiweddar fel a ganlyn: Para 21 (a) Diogelu Data – Dylid newid y cyfeiriad 'bydd' i 'gall' – Gall y Cyngor benodi Swyddog Diogelu Data.
Y Rheoliadau Ariannol a'r Rheolau Sefydlog Newydd. Roedd copïau wedi cael eu hanfon at yr holl Gynghorwyr er mwyn iddynt eu darllen. Cytunwyd i fabwysiadu'r ddau.
Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad, ddydd Iau 14 Mehefin yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin. Roedd John Williams (Cadeirydd) a Jane Morgan (Clerc) wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn. Rhoddwyd adroddiad i'r holl Gynghorwyr a dosbarthwyd taflenni iddynt. Cytunwyd i fabwysiadu'r Cod Ymddygiad.
Cyrhaeddodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Roger Anthony y cyfarfod.
Cais Cynllunio E/37345. Cais Cynllunio Llawn. Addasiadau ac Estyniadau Arfaethedig yn Cilyllyn Fawr, Talyllychau, ar gyfer Mr a Mrs Emyr Thomas. Ni wnaed unrhyw sylwadau.
Nid oedd yna unrhyw fusnes arall a daeth y cyfarfod i ben tua 9.40 pm.
Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth 4 Medi 2018 am 7.30 pm.